Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Statws Cymhwyster Bagloriaeth Cymru: Barn cyflogwyr

Hydref 2018

Mae'r **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** yn trafod statws Cymhwyster Bagloriaeth Cymru. Fel rhan o'i ymchwiliad, cynhaliodd y Pwyllgor drafodaeth Dialogue i'w helpu i ddeall barn cyflogwyr yng Nghymru am y cymhwyster.

Hyrwyddo a dadansoddi'r arolwg

Anogwyd cyflogwyr o sectorau gwahanol i roi sylwadau i'r drafodaeth ar-lein drwy gymryd rhan mewn ffeiriau gyrfaoedd, cyflwyniadau penodol a digwyddiadau rhwydweithio.

Ymatebion unigol

Casglwyd **13** o ymatebion. Mae ymatebion unigol wedi'u cynnwys isod a'u trefnu yn ôl sector.

Y celfyddydau

Nid wy'n ddeall Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn llwyr o hyd, yn enwedig o'i gymharu â chymwysterau traddodiadol eraill.

Treftadaeth

Mae gwybod bod gan gyflogai Gymhwyster Bagloriaeth Cymru yn dangos bod gan yr unigolyn brofiad ymarferol.

Addysg

Mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru gan lawer o fyfyrwyr rydym yn eu cyflogi fel cynorthwywyr addysgu, ond nid yw'n cael ei ystyried ac ni ofynnir amdano fel arfer.

Gofal iechyd

Beth yw Cymhwyster Bagloriaeth Cymru?

Nid wyf erioed wedi clywed am Gymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Nid yw'r cymhwyster yn newid cyflogadwyedd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol oherwydd gofynion hyfforddiant.

Diogelwch a rheoli torfeydd

Ddim yn gyfarwydd â'r cymhwyster.

Gwasanaethau ariannol

Mae Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn bendant yn helpu rhywun i ddatblygu ei sgiliau cymdeithasol i fagu hyder a dod yn gyfforddus i adael byd addysg a chael cyflogaeth.

Nid wy'n chwilio amdano ac rwy'n teimlo ei bod yn bosibl na fyddai rheolwyr penodi'n ei gydnabod na gwybod i beth mae'n cyfateb.

Cynhyrchu'r cyfryngau

A wyf o'r farn bod Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn ddefnyddiol i'r rhai rwy'n eu cyflogi? Ddim o gwbl. Dim ond os ydynt yn angenrheidiol ar gyfer y swydd y mae cymwysterau'n bwysig. A fyddwn eisiau rhywun a ddysgodd am 5 mlynedd sut i wneud y gwaith neu rywun sydd wedi gwneud y gwaith ers 5 mlynedd?

Adnoddau dynol a gwerthu

Rwyf wedi clywed amdano, ond nid wy'n siŵr ohono.

Cyfleustodau

Gall unrhyw un dros 17 oed weithio yn fy musnes, heb angen cymwysterau penodol gan ein bod yn cynnig hyfforddiant i'r rhai rydym yn eu recriwtio. Yn bersonol, nid wy'n cydnabod Cymhwyster Bagloriaeth Cymru a sut y byddai'n gymwys i'm busnes.

Dosbarthu

Rwy'n ymwybodol o Gymhwyster Bagloriaeth Cymru, ond dim mwy na hynny. Nid wy'n ymwybodol o'r lefelau gwahanol sydd ganddo na phwysoliad y “statws”. Rwy'n 37 oed ac yn hoffi meddwl fy mod yn gwbl ymwybodol o'r dyfarniadau a'r graddau a ddilynais ac roedd gennyf yr opsiynau i'w dilyn pan oeddwn yn tyfu lan, ond rwy'n cyfaddef nad wy'n gyfarwydd â dyfarniadau diweddarach. Fodd bynnag, nid yw hynny'n golygu y byddwn yn diystyru unrhyw ddyfarniad.

Er enghraifft, hysbysebais swydd gyrrwr danfon nwyddau'n ddiweddar. Cefais dros 800 o ymgeiswyr. Fel prawf, chwiliais y ceisiadau am y term "Bagloriaeth Cymru" yn fy e-bost. Ymddangosodd llond llaw. Wrth edrych ar un, mae'n dweud:

Addysg a chymwysterau:

Diploma Lefel 3 mewn Gwasanaethau Cyhoeddus - Llwyddiant/Llwyddiant

Bagloriaeth Cymru Lefel 3 - Llwyddiant

TGAU Mathemateg - C

TGAU Saesneg - C

BTEC Lefel 2 mewn Gwyddoniaeth - Llwyddiant

TGAU Ffotograffiaeth - C

Bagloriaeth Cymru Lefel 2 - Llwyddiant

I mi, yn yr achos hwn, mae'n cymysgu â'r gweddill, yn enwedig wrth ymyl pynciau craidd TGAU a'u graddau perthnasol.

Sylwadau ychwanegol

Casglwyd sylwadau ychwanegol hefyd mewn trafodaethau â chyflogwyr yn ystod cyflwyniadau a digwyddiadau rhwydweithio. Dyma grynodeb o'r sylwadau hyn:

- Roedd gan y rhai â phlant a oedd yn astudio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru ddealltwriaeth well ohono, er iddynt gytuno'n gyffredinol nad oeddent yn cymhwyso'r ddealltwriaeth hon i ymwybyddiaeth o werth y cymhwyster i'w diwydiant.
- Roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod diffyg ymwybyddiaeth neu ddealltwriaeth gyfyngedig ymhlith cyflogwyr a bod angen cyfathrebu'n well.

- Dywedodd y rhan fwyaf o gyflogwyr eu bod yn ystyried gweithgareddau allgyrsiol, yn ogystal â graddau megis Gwobr Dug Caeredin a gwaith gwirfoddol ond, heb ddealltwriaeth o Gymhwyster Bagloriaeth Cymru, mae'n rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno hyn yn y ffordd gywir. E.e. pa sgiliau a phrofiadau a ddatblygwyd o ganlyniad i ddilyn cwrs Bagloriaeth Cymru?

- Ar ôl esbonio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru i'r cyflogwyr, roedd y rhan fwyaf yn teimlo ei fod yn ffordd gadarnhaol o gyflwyno sgiliau meddalach ond, heb gyfathrebu â chyflogwyr yn well, roeddent yn teimlo y gellid colli gwerth y sgiliau hynny.